

Proffil Swydd

Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cymdogaethau

Adrodd i:

Cyfarwyddwr Gweithredol Cwsmeriaid a Chymunedau, Cartrefi Conwy

Tîm:

Tîm Cymdogaethau

Rheolwyr Llinell:

Adrodd yn uniongyrchol i 3 - Arweinydd Rheoli Tai, Rheolwr Gwasanaethau Byw'n Annibynnol a Rheolwr Gosodiadau ac Eiddo

Lleoliad:

Morfa Gele, Swyddfa Abergele ac yn gweithio ar draws ein cymunedau.

Cyflog:

Cyflog Cystadleuol

Pwrpas y Swydd:

Darparu gwasanaeth rheoli tai rhagweithiol ansawdd uchel o 4,000 o gartrefi Cartrefi Conwy gan roi rhagoriaeth cwsmeriaid wrth galon gweithrediadau i gynnal tenantiaethau a chreu cyfleoedd i denantiaid ffynnu.

Gyrru dull gweithredu un tîm i ddarparu arweinyddiaeth strategol a gweithredol. Defnyddio profiad a data cwsmeriaid i ddatblygu a gweithredu ymyriadau arloesol i leihau ôl-ddyledion rhent, cefnogi a galluogi tenantiaid i reoli eu tenantiaethau (contractau meddiannaeth) a sicrhau'r defnydd gorau o'n stoc dai.

Cyfrannu'n effeithiol fel rhan o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i ddatblygu cyfeiriad strategol ar gyfer Cartrefi Conwy, gan gyfrannu at ddatblygu strategaethau, polisiau a gweithdrefnau amrywiol ac arloesol.

Cefnogi Cyfarwyddwr Gweithredol Cwsmeriaid a Chymunedau i weithredu gweledigaeth a strategaeth, a chyflawni'r amcanion ar gyfer y tîm Cymdogaethau a'r Grŵp yn ei gyfanrwydd.

Dimensiynau Swydd:

Cartrefi Conwy (CC) Trosiant tua £25m, Creu Menter (CE) Trosiant tua £12m, tua 4,030 o gartrefi, tua 280 o gydweithwyr. Tîm cymdogaeth tua 64 o gydweithwyr.

Ffocws a Chyfrifoldebau Allweddol:

CYFLENWI GWASANAETH CWSMERIAID

- Sicrhau bod llais tenantiaid wrth wraidd gweithrediadau rheoli tai fel bod adborth yn cael ei geisio a'i ddefnyddio yn barhaus i wella gwasanaethau a dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau.

- Hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth a chwilio am gyfleoedd newydd i ddarparu'r gwasanaethau gorau i denantiaid sy'n cynnig gwerth am arian.
- Cefnogi cyflawni amcanion Cartrefi Conwy yn gyffredinol mewn ffordd weithredol er mwyn darparu gwasanaeth rhagorol, arloesol sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.
- Cydweithio'n agos â'r tîm Creu Dyfodol i sicrhau cyflawni ei strategaeth Effaith Gymdeithasol yn llwyddiannus a chyfrannu tuag at hynny trwy ymyriadau a strategaethau a fydd yn galluogi tenantiaid i ffynnu yn eu cartrefi.
- Sicrhau bod strategaethau cyfathrebu effeithiol, cyson a chlir ar waith mewn cydweithrediad â'r tîm Cyfathrebu sy'n hyrwyddo a rhannu gwybodaeth a gweithgareddau allweddol Cymdogaethau.

ARWEINYDDIAETH CYDWEITHWYR

- Cynorthwyo Cyfarwyddwr Gweithredol Cwsmeriaid a Chymunedau a gweithio fel aelod o dîm cydlynol.
- Meithrin diwylliant mewnol 'gyda'n gilydd', gan hyrwyddo cydweithredu i ddatrys materion cyn gynted â phosibl.
- Arwain, ysbrydoli a datblygu tîm amrywiol o gydweithwyr i hwyluso ymgysylltiad a'r perfformiad gorau posibl. Creu amgylchedd sy'n annog arloesedd, lle gall cydweithwyr wireddu eu potensial llawn a darparu gwasanaeth o ansawdd uchel o fewn Cartrefi Conwy.
- Cydweithio'n agos â'r timau adeiladu a chynnal a chadw a gwasanaethau eiddo i ddylanwadu a chyfrannu tuag at ddarparu gwasanaeth atgyweirio o'r radd flaenaf ynghyd â chadw ein tenantiaid yn ddiogel yn eu cartrefi.
- Datblygu, hyrwyddo ac ymgysylltu'n gadarnhaol ag ymrwymadau Cartrefi Conwy; datblygu gwaith mwy amrywiol a chanolbwyntio ar denantiaid mewn modd adeiladol.
- Darparu cyngor ac arweiniad i reolwyr i sefydlu diwylliant o rymuso, ymgysylltu a pherfformiad rhagorol sy'n canolbwyntio ar y cwsmer
- Arwain, ysgogi a datblygu cydweithwyr yn yr Adran Gymdogaethau gan wneud y defnydd mwyaf posibl o adnoddau, a'u bod yn perfformio i safonau uchel yn gyson, gan ddiwallu anghenion tai a chymorth amrywiol ein cwsmeriaid presennol ac yn y dyfodol.

CYFRIFOLDEBAU CYMDOGAETH

- Arwain a datblygu perthnasoedd strategol gyda rhanddeiliaid ac asiantaethau allanol eraill.
- Arwain a datblygu pob agwedd ar Gymdogaethau yn barhaus, gan gynnwys:
 - Rheoli incwm: sicrhau bod polisiau a phrosesau cadarn ar waith i reoli incwm rhent a thaliadau gwasanaeth yn rhagweithiol gyda phenderfyniadau ac ymyriadau wedi'u harwain gan ddefnydd clyfar o ddata tra'n cadw'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol a byrddau / pwyllgorau perthnasol yn cael eu gwerthuso ar gynnydd yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol.
 - Cymorth tenantiaeth a chynhwysiant ariannol: sicrhau bod polisiau, mecanweithiau ymgysylltu a chymorth yn cael eu datblygu i sicrhau bod tenantiaid yn derbyn y cymorth angenrheidiol sydd ei angen arnynt a cheisio cyfleoedd cyllid/partneriaethau allanol yn barhaus.
 - Anghenion cyffredinol, tai fforddiadwy a chysgodol: cyfrannu at sicrhau bod Cartrefi Conwy yn parhau i ddarparu tai sy'n addas ac yn diwallu anghenion tenantiaid yn awr ac yn y dyfodol.
 - Monitro, datblygu a gweithredu ystod o bolisiau a gweithdrefnau sy'n cwmpasu pob agwedd ar wasanaethau Cymdogaethau i adeiladu mwy o effeithlonrwydd trwy gyfryngau digidol. Mae sicrhau llais a dylanwad y tenant yn ganolog i'r ffordd y maent yn cael eu cyflwyno.
 - Sicrhau datblygu, cydymffurfio a chymhwysio cyson yr holl bolisiau sy'n gysylltiedig â rheoli tai a lesddaliad.
 - Gyrru ymlaen arloesedd a newid, adolygu deiliadaeth ar gyfer tai fforddiadwy a sicrhau bod pob penderfyniad yn cael ei wneud gyda rhagoriaeth cwsmeriaid ac effeithlonrwydd busnes mewn golwg.

RHEOLAETH CORFFORAETHOL

- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu, adolygu a gweithredu strategaethau, polisiau a gweithdrefnau newydd, yn benodol (nid yw'r rhestr ddilynol yn rhestr gynhwysfawr):
 - Cymhwyso a rhoi ar waith polisiau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth.
 - Atebolrwydd am gymhwyso systemau iechyd a diogelwch gwaith ar gyfer Cartrefi Conwy.
 - Gwerthfawrogi, deall, mesur ac adrodd ar amrywiaeth ac effaith.
 - Datblygu, monitro ac addasu cofrestrau a thechnegau rheoli risg ar gyfer meysydd atebolrwydd.
 - Sicrhau bod arferion rheoli perfformiad yn cael eu datblygu a'u cymhwyso'n gyson. Monitro a bwydo'n ôl ar ymddygiadau sy'n seiliedig ar gymhwysedd ar gyfer y gwasanaethau rydych yn atebol amdanynt,
 - Cefnogi technoleg a systemau cyfrifiadurol gwybodaeth, cyfrannu at weithredu strategaethau a chymryd cyfrifoldeb am gynnal a chydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

RHEOLI RISG A PHERFFORMIAD

- Asesu risgiau yn rheolaidd, cynghori a gwneud argymhellion yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r holl ffactorau sy'n gysylltiedig â rheoli a chymorth tai.
- Cipio ac adrodd ar wybodaeth meincnodi effeithiol / arfer gorau i yrru gwelliant parhaus a dylanwad dangosyddion ac amcanion perfformiad allweddol.
- Er mwyn sicrhau bod cynlluniau adfer mewn achos o drychineb a pharhad y busnes yn cael eu hadolygu a'u profi yn rheolaidd mewn cydweithrediad â'r tîm ehangach a rhanddeiliaid allweddol.
- Sicrhau bod holl dargedau'r Dangosydd Perfformiad Allweddol yn cael eu monitro a'u gwella i gefnogi gwelliant parhaus ar draws pob maes o'r busnes
- Paratoi cyllideb flynyddol, gan fonitro a rheoli'r gwariant y cytunwyd arno. Gwneud y mwyaf o werth am arian tra'n cynnal rhagoriaeth cwsmeriaid.

RHEOLAETH ARIANNOL A RHEOLI CYLLIDEBOL

- Sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau ariannol, rheolau sefydlog, polisiau a gweithdrefnau Cartrefi Conwy, safonau digonolrwydd sy'n ymwneud â statws elusennol y sefydliad a Rheoliad Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Darparu adroddiadau cynnydd rheolaidd i'w cyflwyno i Bwyllgorau priodol, Tim Arweinyddiaeth Weithredol ac i Uwch Reolwyr.
- Cadw i fyny â newidiadau polisi perthnasol / newidiadau i ddeddfwriaeth a lledaenu i gydweithwyr priodol a diweddarau prosesau a gweithdrefnau mewnol lle bo hynny'n briodol.

PWYLLGORAU/BWRDD

- Paratoi a chyflwyno adroddiadau ar gyfer y Byrddau a'r Pwyllgorau yn ôl yr angen, gan eu gwerthuso ar sail dangosyddion a mesurau perfformiad allweddol, diweddariadau strategol, deddfwriaeth newydd ac adolygiadau polisi.

CYFFREDINOL

- Hyrwyddo a chynrychioli'r sefydliad yn broffesiynol mewn cyfarfodydd lleol a chenedlaethol gyda rhanddeiliaid, partneriaid allanol a darparwyr tai eraill.
- Sicrhau bod yr holl bolisi corfforaethol yn cael ei weithredu'n llawn bob amser a bod y sefydliad yn cadw at y polisiau hynny.

Mae'r disgrifiad swydd hwn wedi'i gynllunio i ddarparu trosolwg cyffredinol o rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwydd ac nid yw'n rhestru pob gofyniad, a bydd disgwyl i ddeiliad y swydd gyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r rôl.

Perthnasoedd Allweddol:

Allanol:

Tenantiaid – Gwrando ar eu llais.

Partneriaethau Llywodraeth a Gwleidyddol* – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Aelodau Etholedig, Cyngorwyr, Aelodau'r Senedd, Llywodraeth Cymru – cydweithio, ymgysylltu, darparu diweddariadau, sesiynau briffio ac adroddiadau perthnasol.

Tai a Sefydliadau Cymunedol (ar lefel ranbarthol neu genedlaethol)* - Sefydliad Tai Siartredig, Cartrefi Cymunedol Cymru, Darparwyr Tai Eraill – Rhannu arferion gorau, cydweithio, cymryd rhan mewn fforymau.

Sefydliadau Sector 3ydd Parti Presennol a Newydd* – Shelter Cymru, TPAS Cymru, MIND - Cryfhau, datblygu a chreu partneriaethau newydd

*Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr.

Mewnol:

Tîm cymdogaethau – Arwain, ysgogi a datblygu. **Rheolwyr** - Tywys a chynghori.

Tîm Adeiladu, Cynnal a Chadw a Gwasanaethau Eiddo – Gweithio ar y cyd a dylanwadu.

Creu Dyfodol – Gweithio ar y cyd i greu cyfleoedd i denantiaid ffynnu.

Swyddogaethau ategol – tîm Gwella Busnes, Datblygu, Cyfathrebu, Adnoddau Dynol, Technoleg Gwybodaeth Cyfrifiadurol, Llywodraethu, Cyllid, Iechyd a Diogelwch. – gweithio ar y cyd.

Tîm Arweinyddiaeth Weithredol, Uwch Dîm Rheoli, byrddau a phwyllgorau – cydweithio, cyflwyno adroddiadau a sicrwydd.

Manyleb y Person

Cymwysterau:

| | Hanfodol/ Dymunol | Wedi'i asesu gan? Cais (Cais) Curriculum Vitae (CV) Llythyr Eglurhaol (LI) Cyfweiliad (C) |
|---|----------------------|---|
| Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus | H | CV |
| Cymhwyster cydnabyddedig ac achrededig mewn Tai neu faes cysylltiedig agos ar lefel 5 neu uwch. | DI | CV |
| Cymhwyster arweinyddiaeth/rheoli, lefel 5 | D | CV |

Gwybodaeth a Phrofiad:

| | Hanfodol/ Dymunol | Wedi'i asesu gan? |
|--|----------------------|-------------------|
| Profiad sylweddol mewn amgylchedd gwasanaethau cwsmeriaid, gan ddangos partneriaeth strategol i wella gwasanaethau cwsmeriaid. | H | CV/LL |
| Profiad mewn swydd reoli mewn sefydliad tai cymdeithasol o faint canolig. | H | CV/LL |
| Profiad o arwain a rheoli timau gyda'r prif gyfrifoldeb o gynnal tenantiaethau mewn amgylchedd cymhleth a heriol. | H | CV/LL/C |



| | | |
|--|---|---------|
| Profiad o reoli a datblygu timau perfformiad uchel mewn ffordd sy'n broffesiynol, hygyrch ac ymgysylltiol. | H | LI/C |
| Profiad o reolaeth cyllidebol effeithiol, gan ddarparu gwerth am arian a gwerthoedd cymdeithasol. | H | CV/LI |
| Hanes o wella polisiâu a gweithdrefnau i wella a llywio canlyniadau, yn seiliedig ar ddata tenantiaid a arweinir gan wybodaeth. | H | CL/C |
| Profiad o weithio gyda thimau rheoli lefel uwch ar ddatblygu polisiâu a strategaethau sy'n canolbwyntio ar denantiaid i gyflawni a chynnal boddhad cwsmeriaid hirdymor | H | CV/LI/C |
| Profiad o weithio ar y cyd ag eraill i gyflawni canlyniadau gan weithio i amserlenni y cytunwyd arnynt | H | CL/C |
| Profiad o ddefnyddio data i adrodd a llywio strategaeth gorfforaethol i gael effaith gadarnhaol ar wasanaethau i grŵp amrywiol o denantiaid | H | CL/C |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o gyfraith tai, a'r cyfraniad y mae tai yn ei wneud i iechyd a lles tenantiaid. | H | CV/C |
| Dealltwriaeth o reoleiddio tai ar gyfer tai cymdeithasol a gwasanaethau cysylltiedig. | H | CV/LI/C |
| Gwybodaeth am sut y gall polisi ddylanwadu ar ymgysylltiad, perfformiad, amrywiaeth, cyfathrebu a boddhad cwsmeriaid. | H | LI/C |
| Gwybodaeth o'r cyd-destun gwleidyddol a chyfreithiol y mae Grŵp Cartrefi Conwy yn gweithredu ynddo, gan gynnwys cyd-destunau cyfreithiol, rheoleiddiol ac arfer gorau. | H | LI/CV/C |
| Cyflawni rheoli prosiectau a rhaglenni yn llwyddiannus | D | CV/LI |
| Gwybodaeth a phrofiad o ddefnyddio TG (e.e. Microsoft 365 – excel, word, PowerPoint, Outlook, Teams) - offer rheoli a phrofiad cyffredinol ar gyfer cyfathrebu. | H | CV |

Sgiliau:

| | Hanfodol/ Dymunol | Wedi'i asesu gan? |
|---|----------------------|-------------------|
| Rhinweddau arwain sy'n gweithredu er budd gorau'r sefydliad bob amser | H | CV/LI/C |
| Datblygu a meithrin diwylliant un tîm ym mhob maes o'r busnes gyda chyfathrebu rhagorol, gan gynnwys timau adrodd uniongyrchol ac eraill. | H | LI/C |
| Gweledigaeth fusnes eang gyda'r gallu i ychwanegu gwerth ar draws ystod o weithgareddau rheoli tai | D | CV/C |
| Ymrwymedig i ansawdd, gwasanaeth cwsmeriaid, perfformiad uchel, a gwerth am arian ym mhob agwedd ar weithrediad y sefydliad | H | C |
| Sgiliau cyfathrebu a dylanwadu rhagorol sy'n gallu dod â safbwyntiau newydd a herio'n gadarnhaol pan fo angen | H | CV/LI/C |
| Lefel uchel o gymhelliant personol a'r gallu i gyflawni canlyniadau, i weithio o dan bwysau a chyflawni i amserlenni tynn | H | LI/C |
| Gwydn a chadarn gyda rhagolygon cadarnhaol | | C |
| Y gallu i gyfathrebu'n rhugl ar lafar ac yn ysgrifenedig drwy gyfrwng Saesneg | H | LI/C |
| Y gallu i gyfathrebu'n rhugl ar lafar ac yn ysgrifenedig drwy gyfrwng y Gymraeg | D | LI/C |
| Rydym yn gwneud y peth iawn | H | C |
| Rydym yn arwain trwy esiampl | H | C |
| Rydym yn gryfach gyda'n gilydd | H | C |
| Y gallu i yrru yn y DU gyda mynediad at eich cerbyd eich hun | H | Cais |

* Mae Cartrefi Conwy wedi ymrwymo i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ein gweithgareddau.

*Lle mae anabledd yn atal, bydd hyn yn cael ei adolygu gyda'r ymgeiswyr yn y cam cyfweld i ganfod a oes unrhyw addasiadau rhesymol y gellir eu gwneud i'r gofyniad hwn.